# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Gwynedd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a’r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gwynedd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Gwynedd wedi cyflawni’r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, roedd Gwynedd wedi cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol, ac mae'n un o ddim ond pedwar awdurdod i gyrraedd y lefel hon.

Mae Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda yn ail flwyddyn y chweched fframwaith. Mae wedi parhau i ddatblygu'r hyfforddiant a gynigir, a gwaith rhaglennu ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau, er y gwelwyd lleihad amlwg mewn gweithgarwch a gefnogir gan bartneriaethau allweddol. Mae dangosyddion eraill o ran defnyddio llyfrgelloedd wedi'u cynnal yn gyffredinol, gyda gwelliannau yn y rhan fwyaf o feysydd, ond gwelwyd gostyngiad parhaus yn nifer yr eitemau a fenthycir. Gwelwyd gostyngiadau yn y gronfa llyfrau yn ystod 2018/19, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd targedau caffael, gyda phwyslais parhaus ar y ddarpariaeth Gymraeg. Mae Gwynedd hefyd yn arwain nifer o fentrau Cymraeg sydd ar waith drwy Gymru gyfan. Er bod lefelau staffio yn parhau islaw'r lefelau targed, mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol / personol y staff, a meithrin a datblygu ei waith gydag amrywiaeth o bartneriaid. Mae ffocws cryf ar ymgynghori â defnyddwyr ac ymateb i anghenion a nodwyd yn ategu'r gwaith hwn, ond bydd adnoddau digonol yn allweddol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth fanteisio i'r eithaf ar ei waith cynllunio gofalus a'r cynnydd a wnaed.

- Mae arolygon defnyddwyr (a gaiff eu hailddosbarthu bob blwyddyn) yn dangos lefelau uchel parhaus o foddhad cwsmeriaid. Mae pedair astudiaeth achos yn dangos y gwahaniaeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i fywydau pobl.
- Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi parhau i gynyddu, gan adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae gwaith partneriaeth wedi'i chael yn y maes hwn. Nifer y bobl sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol yw'r pumed uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Mae lleihad mewn cymorth gan gynlluniau partneriaethau allweddol wedi effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau. Fodd bynnag, ar sail debyg am debyg, mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr mewn gweithgarwch a arweinir gan lyfrgelloedd. Gwelwyd rhywfaint o welliant o ran defnyddio llyfrgelloedd yn y rhan fwyaf o feysydd eraill, ond mae nifer y llyfrau a fenthycir yn parhau i ostwng.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd ei dargedau caffael Cymraeg a'i dargedau caffael cyffredinol, er gwaethaf y gostyngiadau yn y gronfa llyfrau yn 2018/19.
- Mae lefelau staffio yn parhau islaw'r targedau a bennwyd, gyda gostyngiad bach mewn lefelau staffio cyffredinol, ac arhosodd niferoedd staff proffesiynol ar yr un lefel â 2017/18.
- Mae cyfanswm gwariant refeniw wedi gostwng cryn dipyn yn 2018/19, er bod yr awdurdod yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth o'i gyllideb cyfalaf.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliadau craidd

Mae Gwynedd yn cyflawni'r 12 hawl graidd yn llawn. Caiff arolygon defnyddwyr rheolaidd, a gaiff eu diweddaru'n flynyddol, eu defnyddio gydag ystadegau ac adborth arall i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni gofynion ac yn diwallu anghenion pobl leol. Mae partneriaethau cryf yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau, gan fynd i'r afael â meysydd megis cyflogadwyedd, iechyd ac addysg. Mae Gwynedd hefyd yn parhau i ddarparu mynediad i wasanaethau, adnoddau a gweithgareddau diwylliannol o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg, gan arwain ar fentrau cenedlaethol yn y maes hwn. Er bod Hawl Craidd 6 yn cael ei ddyfarnu'n llawn eto yn 2018/19, nodir bod taliadau wedi'u cyhoeddi am eitemau sy'n newydd i stoc; deellir nad yw'r taliadau hyn yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ond byddai rhywfaint o eglurhad o'r polisi codi tâl cyhoeddedig yn y maes hwn yn briodol i ddefnyddwyr.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Gwynedd yn cyflawni 9 yn llawn, ac un yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Cyflawni'n llawn |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Mae Gwynedd wedi cynnal ei berfformiad yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, heb newid sylweddol o gymharu â 2017/18.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Gwynedd yn cwblhau ei harolygon ar gylch blynyddol, gyda gweithgarwch yn cael ei rannu ar draws tri arolwg i oedolion, gan gwmpasu TG a Dysgu, Iechyd a Lles, a Gofal Cwsmeriaid, ac arolwg plant.  Felly, caiff y ffigurau eu diweddaru bob blwyddyn.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau. | 97% | *=1/13* | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 91% | *5/15* | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 94% | *=13/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Gwynedd bedair astudiaeth achos fanwl:

- Cefnogi Casgliadau LHDT – gweithio gyda grwpiau LGBT lleol i sefydlu casgliadau dynodedig yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Bangor.  Mae'r adnoddau wedi cael croeso cadarnhaol ar y cyfan, ac mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa well i allu diwallu anghenion amrywiol ei ddefnyddwyr, hybu cynhwysiant a chefnogi mentrau megis mis hanes LGBT.

- Clwb Darllen Difyr – gweithio gyda siop lyfrau leol i hybu llyfrau a darllen i blant, drwy sefydlu clwb darllen cyfrwng Cymraeg newydd. Mae'r clwb bellach yn cyfarfod bob mis yn y siop lyfrau gyda chymorth parhaus gan staff y llyfrgell. Mae cyfranogwyr wedi cael eu cefnogi i ddarllen mwy o Gymraeg a rhoi cynnig ar lyfrau gwahanol, gwneud ffrindiau newydd a magu hyder wrth rannu eu safbwyntiau a'u barn.
- Gwasanaeth Cymorth Digidol yn Cartref – estyniad i'r Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref sy'n darparu cymorth digidol i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar dechnoleg fel ffordd o ymgysylltu â'r byd mawr y tu allan. Roedd y gwasanaeth wedi helpu un gŵr hŷn i osod ei focs rhyngrwyd newydd, a chysylltu dyfeisiau, gan ddarparu gwybodaeth iddo am yr amrywiaeth o wasanaethau digidol a ddarperir gan y llyfrgell - roedd hyn yn hollbwysig er mwyn iddo gynnal cysylltiadau â'i deulu a defnyddio'r cyfryngau a gwasanaethau.
- Cefnogi Unigolion ag Anableddau Dysgu – gweithio gyda Chanolfan Ddydd i oedolion sydd ag anghenion dwys er mwyn darparu sesiynau Stori Synhwyraidd, gan helpu i wella ymgysylltiad, llesiant a hapusrwydd y sawl sy'n bresennol.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i’r dangosyddion sy’n weddill, ond meant yn fod i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae’r tabl canlynol yn crynhoi safle Gwynedd ar gyfer 2018/19. Mae’r safle’r awdurdod wedi’i rhoi allan o 22, sef 1 yw’r uchaf a 22 yw’r awdurdod sydd â’r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau.
Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 96% | *1/15* | 24% | 82% | 96% | *89%* |
| c) iechyd a lles | 57% | *=11/15* | 33% | 62% | 94% | *65%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 99% | *=2/15* | 90% | 97% | 100% | *98%* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 90% | *11/14* | 81% | 91% | 98% | *89%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 100% | *=1/14* | 93% | 99% | 100% | *100%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 91% | *=4/13* | 65% | 91% | 95% | *80%* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 98% | *=4/14* | 93% | 97% | 99% | *96%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | *=1/13* | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *9.1* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 31 | *11/22* | 13 | 30 | 208 | *12* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 335 | *5/22* | 15 | 199 | 433 | *295* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 281 | *13/22* | 91 | 295 | 689 | *419* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 2,900 | *20/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *2,810* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,083 | *8/22* | 345 | 885 | 2,205 | *983* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 156 | *10/22* | 58 | 150 | 251 | *154* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 1,159 | *3/22* | 95 | 602 | 1,424 | *1,118* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen[3] | 8 | *17/22* | 5 | 10 | 14 | *8* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 20% | *17/22* | 14% | 25% | 63% | *22%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 5 | *20/21* | 3 | 30 | 214 | *8* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 676 | *18/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *300* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £14,440 | *6/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£16,852* |
| b) % ar staff | 48% | *21/22* | 47% | 62% | 78% | *44%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | *13/22* | 8% | 13% | 21% | *11%* |
| % ar offer ac adeiladau | 5% | *10/22* | 0.4% | 4% | 25% | *20%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 34% | *2/22* | 0.3% | 16% | 37% | *24%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £448 | *12/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£500* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £1.99 | *7/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£2.10* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.17% | *20/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.84%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.00% | *=1/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *1.36%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo [3] fesul 10,000 y boblogaeth breswyl [4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Gwnaeth Gwynedd ddiweddaru ei harolygon rhwng mis Mai 2018 a mis Chwefror 2019, gan nodi nifer o feysydd sydd wedi gwella o gymharu â 2017/18. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu amrywiaeth lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a llesiant, gydag amrywiaeth ehangach o wasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu mewn mwy o fannau gwasanaeth. Mae nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn parhau i gynyddu, gyda pherfformiad bellach yn cyrraedd y lefel ganolrif, gan adlewyrchu'r gwaith a wnaed mewn partneriaeth â Chymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd a Remploy. Mae niferoedd sydd wedi cael budd o hyfforddiant anffurfiol (drwy ddarparu cymorth TG / digidol yn bennaf) hefyd wedi cynyddu ymhellach ac yn cyfateb i'r pumed uchaf yng Nghymru erbyn hyn.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Gwynedd yn parhau i gyrraedd y targed o ran cael mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda gwasanaethau teithiol a gwasanaethau cartref yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gall rhannau mwyaf gwledig y sir gael mynediad. Mae'r gwasanaeth yn darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig ym mhob un o'i brif fannau gwasanaeth, ond mae lleihad o ran gweithgarwch o dan y cynllun Cyfuno, a'r ffaith bod cynllun Iechyd a Llesiant Macmillan wedi dod i ben, wedi cael effaith ar bresenoldeb cyffredinol mewn digwyddiadau. Fodd bynnag, nodwyd ar sail debyg am debyg (ac eithrio presenoldeb o dan y cynlluniau hyn), fod y gwasanaeth wedi cyrraedd llawer mwy o bobl drwy ei weithgareddau llyfrgell nag y gwnaeth yn 2017/18. Mae defnydd o lyfrgelloedd mewn meysydd eraill wedi gwella ar y cyfan, ac eithrio nifer y llyfrau a fenthycir sydd wedi gostwng ymhellach yn 2018/19. Fodd bynnag, benthyciadau plant fesul pen o'r boblogaeth yw'r trydydd uchaf yng Nghymru o hyd.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targed caffael ar gyfer DA 9, er gwaethaf y gostyngiad yn y gronfa lyfrau (er y gall hyn fod yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer y llyfrau a fenthycir), a chaiff y gofynion o ran caffaeliadau Cymraeg (DA 10) eu bodloni hefyd, ond ar lefel is. Fodd bynnag, mae Gwynedd yn parhau i gofnodi un o'r gwariannau cymesurol uchaf ar adnoddau Cymraeg, gan ddiwallu anghenion ei phoblogaeth, ac mae nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir ymhlith yr uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd targedau o ran cyflenwi ceisiadau, gan nodi bod ceisiadau'n cael eu bodloni o fewn yr awdurdod sy'n gyffredin â gwasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru. Mae darpariaeth cyfrifiaduron wedi'i chynnal ar lefelau 2017/18, er bod defnydd wedi gostwng, gyda pherfformiadau yma islaw lefel ganolrif Cymru. Mae gan bob cerbyd teithiol ddarpariaeth Wi-Fi bellach, ond mae problemau o ran cysylltedd o hyd mewn rhai ardaloedd.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Ar y cyfan, mae lefelau staffio wedi gostwng ychydig, ac er bod nifer y staff proffesiynol yn aros yr un peth, nid yw Gwynedd yn bodloni'r targedau yn y naill faes. Mae arweinwyr cymwys yn eu lle ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni gofynion o ran datblygiad a hyfforddiant staff. Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu drwy drefniadau partneriaeth yn bennaf, gyda'r gwasanaeth ond yn cefnogi nifer bach o leoliadau profiad gwaith yn uniongyrchol. Nodwyd nad oes unrhyw gapasiti i gefnogi rhaglen gwirfoddolwyr ehangach.

Mae cyfanswm gwariant refeniw wedi gostwng cryn dipyn yn 2018/19, er bod yr awdurdod yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth o'i gyllideb cyfalaf. Mae cyfanswm oriau agor blynyddol wedi cael eu cynnal ar lefelau 2017/18, ni amharwyd lawer ar y gwasanaethau a gynlluniwyd.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Gwynedd yn amlinellu ystod eang o weithgareddau a mentrau llyfrgell sy'n cefnogi themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: Ffyniannus a diogel, Iach ac egnïol, Uchelgeisiol a dysgu ac Unedig a chysylltiedig Nodwyd gwaith i hybu a chefnogi cynhwysiant digidol hefyd, yn ogystal â rôl Gwynedd o ran cydlynu cynlluniau llyfrgell cydweithredol yn rhanbarthol a thrwy Gymru gyfan, yn enwedig o ran y Gymraeg.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn ganlynol, mae'r gwasanaeth yn adrodd ar ddatblygiadau o dan ei strategaeth llyfrgelloedd 2016-2020. Yn 2018/19, mae hyn wedi cynnwys rhoi amrywiaeth o fentrau ar waith, megis cyflwyno peiriannau hunanwasanaeth, a dull 'Ffordd Gwynedd' o ddarparu gwasanaethau. Wrth symud ymlaen, mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol a phersonol y staff, yn ogystal â gweithio i gynnal a meithrin cydberthnasau gwaith, gan adeiladu ar gydberthnasau presennol ag amrywiaeth o grwpiau a gwasanaethau. Nodwyd bod Iechyd a Llesiant a Dysgu Oedolion yn feysydd â blaenoriaeth allweddol i'w gwella a'u datblygu, wrth weithio gyda'r partneriaid hyn. Tynnwyd sylw hefyd at gynlluniau i ddatblygu rôl y gwasanaeth llyfrgelloedd fel canolfan wybodaeth gymunedol a fydd yn ysgogi adfywiad lleol.

## 6 Casgliad

Mae Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda yn ail flwyddyn y chweched fframwaith. Mae wedi parhau i ddatblygu'r hyfforddiant a gynigir, a gwaith rhaglennu ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau, er y gwelwyd lleihad amlwg mewn gweithgarwch a gefnogir gan bartneriaethau allweddol. Mae dangosyddion eraill o ran defnyddio llyfrgelloedd wedi'u cynnal yn gyffredinol, gyda gwelliannau yn y rhan fwyaf o feysydd, ond gwelwyd gostyngiad parhaus yn nifer yr eitemau a fenthycir. Gwelwyd gostyngiadau yn y gronfa llyfrau yn ystod 2018/19, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd targedau caffael, gyda phwyslais parhaus ar y ddarpariaeth Gymraeg. Mae Gwynedd hefyd yn arwain nifer o fentrau Cymraeg sydd ar waith drwy Gymru gyfan. Er bod lefelau staffio yn parhau islaw'r lefelau targed, mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol / personol y staff, a meithrin a datblygu ei waith gydag amrywiaeth o bartneriaid. Mae ffocws cryf ar ymgynghori â defnyddwyr ac ymateb i anghenion a nodwyd yn ategu'r gwaith hwn, ond bydd adnoddau digonol yn allweddol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth fanteisio i'r eithaf ar ei waith cynllunio gofalus a'r cynnydd a wnaed.

---

[i] Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018-19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.